RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL
HYSBYSIAD I GYFLAWNWYR

I: YR HOLL GYFLAWNWYR SYDD AR Y RHESTR CYFLAWNWYR MEDDYGOL, Y RHESTR CYFLAWNWYR DEINTYDDOL, Y RHESTR OFFTHALMIG NEU'R RHESTR OFFTHALMIG ATODOL MEWN BWRDD IECHYD YNG NGHYMRU

Annwyl Gyflawnwr

Diogelu Data a Chyfrinachedd

Fel y gwyddoch chi, o 25 Mai 2018, bydd y Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn newid yn y DU, a dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), un o'r prif newidiadau fydd rhoi mwy o hawliau i unigolion wrth brosesu eu data personol. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i wybod beth sy'n digwydd i'r wybodaeth sy'n cael ei chadw a'i phrosesu ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC). Mae'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n flaenorol yn parhau i gael ei phrosesu mewn ffordd deg a chyfreithlon, a phobl sydd ei hangen am resymau cyfreithiol yn unig sydd â'r hawl i'w gweld. Mae'r wybodaeth bersonol yr ydych wedi'i darparu yn cael ei defnyddio at ddibenion cydweddol yn unig, dan brosesau sy'n dibynnu ar y rhestrau a nodir uchod.

Mae staff yn parhau i weithio gyda'r holl wybodaeth adnabyddadwy o fewn canllawiau cyfrinachedd. Mae hyn yn cynnwys mynychu hyfforddiant cyfrinachedd cynhwysfawr a phrotocolau Llywodraethu Gwybodaeth penodol sy'n llywodraethu'r holl staff GIG a fydd yn prosesu eich gwybodaeth, ac rydym yn parhau i ddilyn telerau ac amodau GIG Cymru.

Ni fyddwn yn rhyddhau eich manylion personol yn ymwybodol i unrhyw sefydliad arall am unrhyw reswm heb gael eich cydsyniad eglur chi oni bai bod sail gyfreithiol deilwng dros wneud hynny. Fodd bynnag, rhoddir gwybod i chi am hyn cyn gynted â phosibl.

Os hoffech ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwch, cysylltwch â'r Tîm Rhestr Cyflawnwyr - nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am GDPR ar: http://www.nwssp.wales.nhs.uk/information-governance.